**Ffilm Cymru Wales**
**Pecyn Gwybodaeth: Swyddog Gweithredol Cynhyrchu**

Dyma'r pecyn gwybodaeth ar gyfer y swydd o:
**Swyddog Gweithredol Cynhyrchu**

Darperir y wybodaeth ganlynol i'ch cynorthwyo gyda'ch cais. Mae rhagor o wybodaeth am Ffilm Cymru ar gael ar www.ffilmcymruwales.com

## Cynnwys


Croeso ....................................... 2
Sut i Ymgeisio ....................................... 2
Cefnogaeth Mynediad ....................................... 3
Rhannu Swydd a Gweithio'n Hyblyg ....................................... 4
Wedi i chi Ymgeisio ....................................... 4
Hysbyseb Swydd ....................................... 5
Swydd Ddisgrifiad Llawn ....................................... 7
Amcanion y Swydd ....................................... 7
Cyfrifoldebau ....................................... 8
Isafswm Gofynion ar gyfer y Swydd ....................................... 10
Ffilm Cymru Wales ....................................... 11
Diagram Staffio'r Cwmni ....................................... 12

# Croeso

Diolch am eich diddordeb yn y swydd gyffrous hon. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â Ffilm Cymru mewn cyfnod o dwf neilltuol. Mae cyllid newydd wedi ei roi i ni gan Llywodraeth Cymru, drwy Cymru Greadigol, fydd yn ategu'r arian a gawn gan Gyngor Celfyddydau Cymru fel eu cynrychiolydd ffilm, a gan Sefydliad Ffilm Prydain i redeg Rhwydwaith BFI Cymru.

Rydym hefyd, yn ddiweddar, wedi codi arian i gefnogi diwydiant sgrîn mwy gwyrdd, ac i adeiladu ar ein rhaglen Troed yn y Drws, gan chwalu'r rhwystrau economaidd-cymdeithasol gall fodoli wrth geisio sicrhau gyrfa ym myd y sgrîn. Fel yr asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilm o Gymru mae'n bwysig i ni weithio tuag at effaith hirdymor. Er y bydd y swydd hon, yn aml, yn cynnwys ymwneud â phrosiectau cyffrous a arweinir gan dalent o Gymru, mae hefyd yn debygol o fod yn addas ar gyfer rhywun sydd â diddordeb mewn newid systemig, a rhywun sy'n cael ei g/chyffroi wrth weld beth sydd bosib ei ddysgu gan adrannau eraill o'r cwmni.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.
*Kim Warner, Pennaeth Cynhyrchu*

# Sut i Ymgeisio

Oni bai ein bod eisoes wedi cytuno bod modd i chi gyflwyno eich cais mewn fformat arall, dylech e-bostio eich CV a llythyr eglurhaol at Ihsana Feldwick ar ihsana@ffilmcymruwales.com gan nodi eich argaeledd, eich profiad a'ch sgiliau yn erbyn y rhai a amlinellir isod.

Gyrrwch eich cais atom erbyn Hanner Dydd, **dydd Llun 15fed o Awst 2022.**

Nid yw Ffilm Cymru yn noddwr trwyddedig ar gyfer VISAs, felly mae'n rhaid bod gennych eisoes Hawl i Weithio yn y DU er mwyn gwneud cais am y swydd hon.

Os ydych yn ymgeisydd mewnol sy'n gweithio yn Ffilm Cymru, trafodwch â'ch rheolwr llinell cyn gwneud cais.

Cynhelir y cyfweliadau ar 22ain a 23ain Awst 2022, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb.

## Cefnogaeth Mynediad

Rydym yn credu mewn sector sy'n gweithio i bawb, ac yn teimlo'n angerddol dros ehangu mynediad i'r sector sgrîn. Byddwn yn cynnig cyfweliad awtomatig i'r holl ymgeiswyr sy'n bodloni lleiafswm y Meini Prawf ar gyfer y swydd hon ac sy'n uniaethu fel Pobl o'r Mwyafrif Byd-eang, fel Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig, neu sy'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl neu niwroamrywiol.

I ymgeiswyr sydd ag anghenion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl, yn niwroamrywiol, a phobl sydd â nam ar eu golwg, mae cymorth ar gael er mwyn cwblhau'r cais. Cysylltwch â ni i roi gwybod sut y gallwn helpu. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cynnal cyfarfodydd cyn i chi wneud cais, cymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau amgen ar gyfer cyflwyno'ch cais fel rhaglenni fideo neu ddeciau sleidiau. Byddwn yn cael ein harwain gennych chi.

Cysylltwch ag Ihsana Feldwick ar ihsana@ffilmcymruwales.com i drafod eich anghenion cyn i chi wneud cais.

## Rhannu Swydd a Gweithio'n Hyblyg

Rydym yn agored iawn i gynigion ar gyfer rhannu'r swydd ac i weithio'n hyblyg. Rhowch fanylion eich cynnig o ran rhannu'r swydd neu weithio'n hyblyg yn eich llythyr eglurhaol, os yn berthnasol.

## Wedi i chi Ymgeisio

Byddwch yn cael cadarnhad bod eich cais wedi'i dderbyn o fewn wythnos i'w gyflwyno, a byddwch yn cael dolen at y ffurflen monitro amrywiaeth, sy'n ein helpu yn ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae gan bob cwestiwn opsiwn 'gwell i gen i beidio â dweud'. I gael gwybodaeth am sut mae Ffilm Cymru yn prosesu data ymgeiswyr, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd.

Byddwch yn clywed a ydych wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cael cyfweliad o fewn pythefnos i ddyddiad cau'r cais.

# Hysbyseb Swydd

**Swyddog Gweithredol Cynhyrchu**
**Llawn Amser**
**£27-33k per annum. Cefnogir gweithio’n hyblyg**
**Dyddiad cau: hanner dydd Llun 15ed Awst**
**Dyddiadau Cyfweld: 22ain a 23ain Awst**

Dyma gyfle cyffrous gan Ffilm Cymru i chi weithio fel swyddog gweithredol cynhyrchu ar ystod eang o ffilmiau nodwedd byw, ffilmiau wedi eu hanimeiddio a ffilmiau dogfen, dan arweiniad talent o Gymru. Mae llwyddiannau’r gorffennol yn cynnwys *Censor* gan Prano Bailey Bond, *Gwledd* gan Lee Haven Jones, *Donna* gan Jay Bedwani, ac *I Am Not a Witch* gan Rungano Nyoni.

## Cyfrifoldebau Allweddol

- Darllen ac asesu ceisiadau am gyllid yn unol â’n canllawiau ariannu a’n meysydd blaenoriaeth, gan gymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau.
- Darparu arweiniad golygyddol a strategol i gynhyrchwyr sy'n derbyn cyllid cynhyrchu gennym, gan eu cefnogi i ystyried sgiliau, amrywiaeth a chynhwysiant, ac effeithiau gwyrdd.
- Gweithio’n agos ochr yn ochr â Swyddog Gweithredol Materion Busnes y cwmni i reoli cymeradwyaethau Ffilm Cymru ar brosiectau sy’n derbyn cefnogaeth, gan adolygu cyllidebau, amserlenni, sgriptiau, a thoriadau ffilm, ymhlith elfennau eraill.
- Cwrdd â gwneuthurwyr ffilm i helpu i roi cyngor iddynt ar ein cyllid, gan yn enwedig annog amrywiaeth eang o ymgeiswyr yn unol â'n Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

## Sgiliau a Phrofiad

- Y gallu i adnabod a meithrin gwaith creadigol a thalent amrywiol.
- Profiad blaenorol o ddatblygu prosiectau neu ddatblygu talent o fewn Ffilm, Theatr, Teledu, y Cyfryngau Newydd, neu ddiwydiannau perthnasol eraill.
- Profiad o adnabod cyfleoedd a heriau mewn gwaith ysgrifenedig a gwaith cynhyrchu.

Byddwn yn cynnig cyfweliad awtomatig i'r holl ymgeiswyr sy'n bodloni lleiafswm y Meini Prawf ar gyfer y swydd hon ac sy'n uniaethu fel Pobl o'r Mwyafrif Byd-eang, fel Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig, neu sy'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl neu'n niwroamrywiol.

We stand in solidarity to say NO to racism and commit to a #ZeroRacismWales

DO YOU?

Sign our policy today.
www.zeroracismwales.co.uk

# Swydd Ddisgrifiad Llawn

**Adran:** Datblygu, Cynhyrchu & Sgiliau
**Swydd:** Swyddog Gweithredol Cynhyrchu, Llawn Amser (potensial i rannu swydd)
**Yn Adrodd i:** Y Pennaeth Cynhyrchu
**Lleoliad:** Cymru. Mae ein swyddfa yng Nghaerdydd ond mae potensial i weithio o bell.
**Dyddiadau'r Cyfweliad:** 22ain a 23ain Awst ar-lein neu wyneb yn wyneb. Byddwch mor garedig â chadarnhau ar eich ffurflen gais os nad yw'n bosib i chi fynychu'r dyddiadau yma.
**Cyflog:** £27-33k y flwyddyn (gydag isafswm y braced hwn wedi'i anelu at ymgeiswyr fydd angen hyfforddiant yn y gwaith er mwyn cyflawni'r swydd), yn ogystal â phensiwn a 28 diwrnod o wyliau, a Gwyliau Cyhoeddus.
**Sut i Ymgeisio:** Oni bai ein bod wedi cytuno gyda chi ar fformat cais gwahanol, dylech e-bostio CV a llythyr eglurhaol at ihsana@ffilmcymruwales.com gan amlinellu eich argaeledd, profiad a'ch sgiliau yn erbyn y rhai a amlinellir yn y fanyleb hon.
**Dyddiad Cau:** Dydd Llun 15ed Awst am Hanner Dydd.

## Amcanion y Swydd

I helpu i roi ffilm o Gymru ar y map, drwy adnabod a meithrin lleisiau Cymreig unigryw, yn enwedig y rhai sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli mewn ffilm, neu sydd eisiau arbrofi gyda'r ffurf gelfyddydol.

I gefnogi'r gwneuthurwyr ffilm rydym yn eu hariannu i gyflawni eu gweledigaeth, tra'n gweithio i gyfyngiadau cyllidebol a logistaidd.

I hwyluso cynhyrchwyr i gefnogi datblygiad hirdymor y sector sgrîn yng Nghymru, megis sgiliau arfaethedig, cynaliadwyedd amgylcheddol, arfer cynhwysol, neu arloesi ehangach.

**Cyfrifoldebau**

- Cwrdd â gwneuthurwyr ffilm i helpu i roi cyngor iddynt ar ein cyllid, gan yn enwedig annog amrywiaeth eang o ymgeiswyr yn unol â'n Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bydd hyn yn golygu olrhain prosiectau ar lechi’r cwmni yn ogystal ag ymateb i ymholiadau o’r tu allan i’r cwmni.
- Darllen ac asesu’r ceisiadau am gyllid yn unol â’n canllawiau ariannu a’n meysydd blaenoriaeth, gan gymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau. Yn benodol, bydd ceisiadau am lai na £50k yn cael eu hasesu gan y swydd hon ynghyd â dau aelod arall o'r adran ac aelod o'r bwrdd. Bydd ceisiadau am fwy na’r swm yma yn cael eu hysgrifennu fel argymhellion i'w cymeradwyo gan y bwrdd ym mhob cyfarfod bwrdd chwarterol.
- Darparu adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus.
- Darparu arweiniad golygyddol a strategol i gynhyrchwyr sy'n derbyn cyllid cynhyrchu gennym, darparu nodiadau ar ddrafftiau o sgriptiau a thoriadau o ffilmiau, ac adolygu cyllidebau ac amserlenni.
- Cefnogi cynhyrchwyr i ystyried sgiliau, amrywiaeth a chynhwysiant, ac effeithiau gwyrdd ynghyd ag unrhyw werth arall o fewn eu prosiect ffilm. Byddwch yn gyfrifol am gynllun cynaliadwyedd pob cynhyrchydd, ond cewch gefnogaeth gan ein Pennaeth Cynhyrchu, ein tîm sgiliau a’n Rheolwr Gwyrdd.
- Adrodd i Swyddog Gweithredol Materion Busnes y cwmni ar elfennau creadigol y prosiect sy’n dod o dan ein cymeradwyaeth megis sgriptiau terfynol, triniaethau neu

animatig, penaethiaid adrannau, cast a lleoliadau, yn ogystal ag adolygu a yw’r gyllideb yn cefnogi eu cynlluniau cynaliadwyedd.

- Gweithio'n agos gyda'r Swyddog Materion Busnes drwy gydol y broses gloi ariannol a chyfreithiol, gan gysylltu â'r tîm cynhyrchu i gadarnhau pwyntiau, yn ôl yr angen.
- Mynd ar drywydd a ffeilio dogfennau a nwyddau sy’n deillio o gynyrchiadau, gan fonitro eu cynnydd yn erbyn terfynau amser cytundebol.
- Monitro cynnydd ac adroddiadau costau’r cynyrchiadau, a chodi ceisiadau am daliadau pan fydd cynyrchiadau yn cyrraedd cerrig milltir y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.
- Cynnal ein cronfa ddata cynhyrchu.
- Cyfrannu at unrhyw waith ‘adrodd yn ôl’, yn enwedig ar gyfer cyfarfodydd bwrdd chwarterol ac adolygiadau diwedd blwyddyn.
- Cefnogi Pennaeth yr Adran i ddatblygu ein harlwy cynhyrchu, gan gynnwys ail-ariannu ein menter ar gyfer ffilmiau nodwedd cyntaf â chyllideb isel, a chynnig cymorth ehangach i gynhyrchwyr.
- Cynrychioli’r cwmni mewn cyfarfodydd, gwyliau a digwyddiadau, gan ganolbwyntio’n benodol ar feithrin perthynas ag ymgeiswyr posibl, asiantau, a swyddogion datblygu a chynhyrchu eraill.
- Cyflawni’r holl gyfrifoldebau mewn ffordd sy’n cefnogi gwerthoedd Ffilm Cymru ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd, cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn Ffilm Cymru a’r sector ehangach.
- Ar adegau, cyfrannu at asesiad cais ehangach o fewn yr adran, os bydd angen.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill y gall eich rheolwr llinell ofyn yn rhesymol amdanynt, neu eu dirprwyo.

**Ffilm Cymru Wales**
**Pecyn Gwybodaeth: Swyddog Gweithredol Cynhyrchu**

## Isafswm Gofynion ar gyfer y Swydd

### Gwybodaeth & Phrofiad

- Profiad blaenorol o ddatblygu prosiectau neu ddatblygu talent o fewn Ffilm, Theatr, Teledu, y Cyfryngau Newydd megis y diwydiannau rhyngweithiol, neu ddiwydiannau perthnasol eraill.
- Profiad o adnabod cyfleoedd a heriau mewn gwaith ysgrifenedig a gwaith cynhyrchu.
- Profiad amlwg o hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant.
- Y gallu i ddefnyddio cyfrifiaduron gyda gwybodaeth ymarferol dda o Microsoft Office (gan gynnwys Teams) a Zoom.

### Sgiliau & Ymdriniaeth

- Y gallu i adnabod a meithrin gwaith creadigol a thalent amrywiol.
- Brwdfrydedd dros ffilm annibynnol.
- Sgiliau trefnu da gyda'r gallu i flaenoriaethu, rheoli a chwrdd â therfynau amser.
- Y gallu i weithio'n fanwl.
- Y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasau gwaith da gydag phartneriaethau ariannu, rhanddeiliaid, a'r dalent rydym yn ei chefnogi.
- Y gallu i weithio mewn dull cydweithredol ac â diddordeb mewn gweld beth sy'n gyffredin rhwng eu gwaith nhw a gwaith eraill, ac yn teimlo'n gyffrous wrth ystyried y cyfle all godi i'r gwaith yma gefnogi newid ehangach.

- Y gallu i weithio'n bwyllog ac yn ddiplomatig, yn enwedig wrth roi adborth.

## Ffilm Cymru Wales

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilm yng Nghymru ac mae'n ymroddedig i hyrwyddo sector ffyniannus y gallwn oll fod yn falch ohono. Rydym yn gwneud hyn:

- Drwy weithio gyda phartneriaid i ddatblygu sefyllfa ffilm yng Nghymru a thu hwnt
- Drwy greu amgylchedd ar gyfer profi, integreiddio a rhannu ffyrdd mwy cynhwysol, arloesol a gwyrdd o weithio
- Drwy gynnwys pobl o bob oed a gallu mewn dysgu creadigol
- Drwy ddatblygu gweithlu sgrîn y dyfodol trwy amrywiaeth o raglenni hyfforddi
- Drwy fuddsoddi mewn ffilmiau anarferol sy'n cymryd risg, a'u gwneuthurwyr, o gyfnod cynnar
- Drwy gynnig profiadau sinematig cyffrous i gynulleidfaoedd ledled Cymru

Rydym yn rheoli arian y loteri genedlaethol ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Sefydliad Ffilm Prydeinig, yn ogystal â chyllid gan Lywodraeth Cymru drwy Cymru Greadigol. Mae ein gwaith yn cyd-fynd yn agos â Rhaglen Llywodraeth Cymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, oherwydd cymysgedd creadigol, economaidd a diwylliannol ein sector.

Sefydlwyd Ffilm Cymru yn 2006 ac mae'n Gwmni Buddiannau Cymunedol. Yn 2018 lansiwyd ein Cynllun Strategol 2018 -2024, y gellir ei ddarllen yma.

# Diagram Staffio'r Cwmni

